

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CYNLLUN I WEITHREDU EIN POTENSIAL

**Datganiad am 'Gredoau a Chamau Gweithredu' i Nyrsys, Bydwagedd
a Nyrsys Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol
Yng Nghymru ar Gyfer 2008 a Thu Hwnt.**

MEHEFIN 2008

CYNLLUN I WIREDDU EIN POTENSIAL': DATGANIAD AM 'GREDOAU A CHAMAU GWEITHREDU' I NYRSYS, BYDWRAGEDD A NYRSYS IECHYD Y CYHOEDD CYMUNEDOL ARBENIGOL YNG NGHYMURU AR GYFER 2008 A THU HWNT.

TUDALEN GYNNWYS

Rhagair gan Edwina Hart, MBE, AC, Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

	Tudalen
Cyflwyniad	1
Hanfod Gofal	2
Egwyddorion Craidd ar Gyfer Gofal	2
Ailystyried y Nod Strategol a'r Amcanion	5
Casgliad	10

Atodiad 1 - Y Tu Hwnt i 2008 - Heriau a Ffactorau Sbarduno i Nyrsys, Bydwagedd a Nyrsys Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol

Atodiad 2 - Y Blaenoriaethau ar Gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth a Nyrsio Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol ar Gyfer 2008 a Thu Hwnt

Atodiad 3 - Dathlu Cyflawniadau

Atodiad 4 - Cyfeiriadau

RHAGAIR

Gwnaeth 'Gwireddu'r Potensial' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 1999), y strategaeth ar gyfer nyrsio, bydwreigiaeth a gwasanaethau ymwelwyr iechyd yng Nghymru ymrwymiad i adolygu a gwerthuso cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu. Yn unol â'r ymrwymiad hwn, cynhaliwyd archwiliadau eang a ddarparodd dystiolaeth o gyflawniadau sylweddol gan nyrsys, bydwagedd ac ymwelwyr iechyd (a alwyd yn ddiweddarach yn nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol) o ran gwella nid yn unig iechyd a lles cleifion/cleientiaid ond hefyd eu profiad o ofal iechyd, a ddefnyddir mor aml fel meincnod ar gyfer ansawdd.

Daeth tro ar fyd, gwelwyd newidiadau sylweddol o ran trefniadaeth, ac arfer ac ystyriwyd ei bod yn briodol bwrw golwg eto ar y Strategaeth wreiddiol i sicrhau ei bod yn berthnasol i heriau a blaenoriaethau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol - ar gyfer gofal iechyd ac ar gyfer y proffesiynau eu hunain.

O ganlyniad, lluniwyd y ddogfen newydd hon yn seiliedig ar y gwerthoedd a fynegwyd gan nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol a chleifion a'u gofalwyr.

Y neges glir gan gleifion/cleientiaid a'r cyhoedd yw na ddylai nyrsys, bydwagedd na nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol anghofio eu diben craidd a'u sgiliau allweddol. Waeth beth sy'n newid, rhaid iddynt barhau i hyrwyddo a darparu gofal sy'n seiliedig ar egwyddorion sy'n canolbwyntio ar hawliau unigol o ran parch, lles, dewis, ymddiriedaeth ac urddas, gan mai'r rhain yw'r pethau sy'n wirioneddol bwysig i gleifion/cleientiaid ac sy'n pennu eu profiadau o ran gofal, waeth beth fo'r canlyniad.

Mae "Cynllun i Wireddu ein Potensial" yn unigryw i'r graddau ei fod wedi'i lunio o amgylch datganiad am *Gredoau a Chamau* gweithredu allweddol. Mae'n diweddarau amcan strategol gwreiddiol 1999 a'r pum nod ategol ac yn mynnu tystiolaeth bendant bod y canlyniadau yn cael eu cyflawni, ar y cyd â Hanfodion Gofal (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003) a Safonau Gofal Iechyd Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005a). Mae rhannu egwyddorion yn agored fel hyn i'w groesawu, gyda'r pwyslais ar egwyddorion craidd gofal yn seiliedig ar hawliau unigol, natur gofalu, y gydberthynas unigryw rhwng y gweithiwr proffesiynol a'r claf/cleient a sut mae parch, urddas a thosturi yn elfennau hanfodol o ofal cymwys.

Mae'r datganiad am *Gredoau a Chamau* gweithredu yn ail ategu mewn ffordd syml ond hanfodol yr honiad bod darparu gofal wrth wraidd yr hyn a 'wna' nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol a sut y disgwylir iddynt seilio eu harfer ar yr egwyddorion craidd hyn ar gyfer gofal. Wrth wneud hynny, rhagwelir y byddant yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i brofiad cleifion/cleientiaid a'u canlyniadau gofal iechyd.

Mae'n bleser mawr gennyf gymeradwyo'r egwyddorion yn y ddogfen ac rwy'n cymeradwyo defnyddio'r Datganiad am *Gredoau a Chamau* gweithredu fel canllaw i wella ansawdd gofal nyrsio, bydwreigiaeth, a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol.



Edwina Hart, MBE, AC, Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

CYFLWYNIAD

Mae'n bleser o'r mwyaf gennyf gymeradwyo'r strategaeth hon ar ei newydd wedd ar gyfer nyrsys a bydwagedd – "Cynllun i Wireddu ein Potensial".

Cafodd y ddogfen, hon, fel ei rhagflaenydd, "Gwireddu'r Potensial", ei hysgrifennu gan nyrsys a bydwagedd ar gyfer nyrsys, bydwagedd, a nyrsys iechedd y cyhoedd cymunedol arbenigol ac felly maent wedi bod yn llwyr gyfrannog ohoni ers y dechrau. Datblygwyd y strategaeth ar sylfeini cadarn a llwyddiannau'r strategaeth flaenorol. Drwy gadw'r pum nod gwreiddiol, sef:


- gwella'r amgylchedd gofal
- sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel ar gyfer pawb
- annog arfer annibynnol a myfyriol
- datblygu llwybrau gyrfa presennol a newydd
- dangos gwerth nyrsys, bydwagedd, ymwelwyr iechedd a nyrsys iechedd y cyhoedd cymunedol arbenigol

a fabwysiadwyd ledled Cymru yn y strategaethau lleol a baratowyd ar gyfer nyrsio, bydwreigiaeth a nyrsys iechedd y cyhoedd cymunedol arbenigol, dylai'r ddogfen ddiweddaraf hon ategu a chadarnhau popeth yr ydym yn ceisio'i gyflawni ar gyfer ein cleifion a'n proffesiwn. Mae'n berthnasol i bob cangen o nyrsio, bydwreigiaeth a nyrsys iechedd y cyhoedd cymunedol arbenigol, a bydd yn gyferbwyt clir mewn amgylchedd o iechedd a gofal cymdeithasol sy'n newid o hyd.

Yn eu hanfod, mae nyrsio, bydwreigiaeth a nyrsys iechedd y cyhoedd cymunedol arbenigol, yn broffesiynau sy'n canolbwyntio ar bobl. Wrth greu'r datganiad am *Gredau a Chantau* gweithredu, aeth yr awduron ati i geisio barn cleifion a'r cyhoedd am eu gobeithion a'u disgwyliadau o ofal nyrsio, bydwreigiaeth a nyrsys iechedd y cyhoedd cymunedol arbenigol, ac roedd hynny'n hanfodol.

Nid yw'n syndod mai'r elfennau sylfaenol o ofal cleifion, fel urddas a pharch, gofal a thosturi oedd amlycaf yn eu hymateb.

Drwy gymryd i ystyriaeth yr hyn y mae eraill yn ei werthfawrogi ym maes nyrsio, bydwreigiaeth, a nyrsys iechedd y cyhoedd cymunedol arbenigol ategu ein credoau a'n gwerthoedd ein hunain a gwneud datganiad fel y gall pawb weld y camau y bwriadwn eu cymryd i gynnal y sylfaen honno o werthoedd, credwn fod gennym strategaeth gadarn ar gyfer y dyfodol y byddwn yn falch o gael ein mesur wrthi.



Rosemary Kennedy
Prif Swyddog Nyrsio Cymru

CYNLLUN I WIREDU EIN POTENSIAL': DATGANIAD AM 'GREDOAU A CHAMAU GWEITHREDU' I NYRSYS, BYDWRAGEDD A NYRSYS IECHYD Y CYHOEDD CYMUNEDOL ARBENIGOL YNG NGHYMRU AR GYFER 2008 A THU HWNT.

Hanfod Gofal

1. Er mai prif ddiben nyrsio, bydwreigiaeth a nyrsio ieched y cyhoedd cymunedol arbenigol yw sicrhau lles a gofal cleifion/cleientiaid, gall 'lles' a 'gofal' olygu pethau gwahanol mewn cyd-destunau gwahanol, gan amrywio o'r ymyrraeth leiaf posibl i ofalu am rywun yn gyfan gwbl mewn amgylchiadau difrifol. Waeth beth fo'r cyd-destun, fodd bynnag, dylai eu penderfyniadau a'u camau gweithredu bob amser fod yn seiliedig ar angen unigol i hybu ieched, atal salwch, gwella neu gynnig gofal lliniarol, cymorth, cyngor neu gysur a chynnwys y claf/cleient yn llawn (hyd eithaf ei allu) a/neu ei deulu neu ei ofalwr fel y bo'n briodol wrth benderfynu ar yr anghenion posibl hyn a sut y gellid eu diwallu; mae'r profiad o ofal mor bwysig â'i ganlyniad.
2. Mewn byd sy'n newid yn gyflym lle ceir technolegau newydd, gellir colli'r elfen bersonol a 'dynol', yn enwedig wrth ddarparu gofal ieched. Tra bod angen i nyrsys, bydwreagedd a nyrsys ieched y cyhoedd cymunedol arbenigol addasu a defnyddio'r technolegau hyn yn eu gwaith, rhaid iddynt hefyd gynnal eu rôl allweddol sef darparu safon uchel o weithgareddau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n rhan ganolog o urddas a lles, ac ymfalchïo yn y rôl honno. Rhaid iddynt hyrwyddo ethos 'Hanfodion Gofal' (CCC, 2003) ac arwain mentrau i gyrraedd y Safonau Gofal Ieched (LICC, 2005a) a mesurau ansawdd perthnasol eraill. Drwy wneud hynny, gall pob nyrs, bydwraig a nyrs ieched y cyhoedd cymunedol arbenigol yng Nghymru ddylanwadu ar brofiad gofal ieched cleifion/cleientiaid a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w canlyniadau gofal ieched.
3. Y neges glir gan gleifion/cleientiaid a'r cyhoedd yw na ddylai nyrsys, bydwreagedd na nyrsys ieched y cyhoedd cymunedol arbenigol anghofio eu diben craidd a'u sgiliau allweddol. Waeth beth sy'n newid, rhaid iddynt barhau i hyrwyddo a darparu gofal sy'n seiliedig ar egwyddorion sy'n canolbwyntio ar hawliau unigol o ran parch, lles, dewis, ymddiriedaeth ac urddas, gan mai'r rhain yw'r pethau sy'n wirioneddol bwysig i gleifion/cleientiaid ac sy'n pennu eu profiadau o ran gofal, waeth beth fo'r canlyniad.
4. Bwriedir i'r term 'claf/cleient' gynnwys pob defnyddiwr gwasanaethau gofal ieched a dylai'r egwyddorion yn y datganiad hwn fod wrth wraidd y gofal a gânt. Fodd bynnag, gall ymagwedd gyfannol tuag at ofal hefyd gynnwys rhieni a/neu unigolion pwysig eraill.

Egwyddorion Craidd Ar Gyfer Gofal

5. Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i bawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal ieched ond mae'r cyfrifoldeb am sicrhau eu bod yn llywio penderfyniadau a chamau gweithredu ar gyfer gofal yn ganolog i rôl nyrs, bydwraig

neu nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol. Felly mae'r egwyddorion hyn yn hanfodol er mwyn ailganolbwyntio ar y camau y mae angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r heriau, y ffactorau ysgogi a'r canlyniadau a fydd yn ei gwneud yn bosibl i gyflawni nodau diwygiedig (2007) y strategaeth. Ymhlith yr egwyddorion hyn mae:

- i Mae cleifion/cleientiaid yn rhan ganolog o ofal. Eu hiechyd a'u lles a ddylai gael eu hystyried yn bennaf wrth i nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol wneud penderfyniadau ynghylch gofal a/neu wrth gymryd camau gyda hwy a/neu wrth weithredu fel eu heiriolwyr.
- ii. Mae pob claf/cleient yn unigolyn unigryw a chanddo ei anghenion a'i ddyheadau ei hun. Mae gan bob un yr hawl i ddisgwyl y caiff ei anghenion gofal iechyd eu diwallu a'i ddymuniadau eu parchu. Mae ganddo'r hawl i drafod ei ofal yn rheolaidd â'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gyfrifol am ei ofal.
- iii Dylai cleifion/cleientiaid gael eu cynnwys, hyd eithaf eu gallu, fel partneriaid cyfartal yn eu gofal a dylid cydnabod a pharchu eu dymuniadau a'u dewisiadau a phan fo'n gyfreithlon, eu hystyried gyntaf. Pan allant wneud hynny, dylid eu grymuso i wneud penderfyniadau ynghylch eu salwch neu les a phenderfyniadau sy'n rheoli canlyniadau eu gofal.
- iv Mae gan gleifion/cleientiaid yr hawl i fod yn annibynnol ac i wneud penderfyniadau eu hunain. Felly gall 'gofalu' olygu nifer o bethau gwahanol a gellir ei ddefnyddio mewn nifer o wahanol ffyrdd yn dibynnu ar y cyd-destun a'r amgylchiadau a gall yr ystyron hyn a'r defnydd a wneir ohono newid yn ystod episod gofal. Gall ystyr 'gofalu' amrywio o ofal nyrsio llwyr ar adegau o ddibyniaeth, i'r ymyrraeth leiaf a chynghor yn unig. Bydd anghenion a dymuniadau'r claf neu'r cleient yn pennu'r math o gymorth a roddir a lefel y cymorth hwnnw. Mae gan y rhai â'r galluedd meddyliol i wneud hynny yr hawl i wrthod gofal a thriniaeth a dylid parchu dymuniadau o'r fath heb unrhyw ragfarn.
- v Dylai cleifion/cleientiaid gael eu trin yn gyfartal ac fel unigolion, waeth beth fo'u tarddiad ethnig, rhyw, statws cymdeithasol, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, credoau crefyddol neu safbwynt personol am iechyd a salwch.
- vi Dylid amddiffyn cleifion/cleientiaid sy'n agored i niwed rhag niwed a rhag achosion o gamfanteisio arnynt. Dylid eu galluogi i gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd sy'n diwallu eu hanghenion orau.
- vii. Mewn rhai achosion, er enghraifft, efallai mai plant ac oedolion sy'n agored i niwed, rhieni a/neu unigolion pwysig eraill fydd y prif gyswllt ynghylch rhoi gofal a gwneud penderfyniadau.
- viii Mae gan gleifion/cleientiaid yr hawl i gael eu trin mewn ffordd gwrtais, barchus ac urddasol ar bob adeg. Mae ganddynt yr hawl i dderbyn gofal mewn amgylchedd glân a diogel gan weithwyr proffesiynol tosturiol a chymwys sy'n meddu ar yr arbenigedd priodol i sicrhau bod

eu hanghenion byw sylfaenol yn cael eu diwallu, yn ogystal â'u hanghenion o ran gofal iechyd a/neu ymyrraeth therapiwtig.

- ix Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol weithio gyda'i gilydd a chydag asiantaethau eraill, mewn partneriaeth ag unigolion a/neu grwpiau o gleifion/cleientiaid, eu teuluoedd a/neu eu gofalwyr i hyrwyddo a gweithredu arfer gorau. Dim ond arfer sy'n dosturiol ac yn llawn gofal yn ogystal â bod yn gymwys a all fod yn arfer 'gorau'.
- x Mae bod yn garedig, tawelu meddyliau, dangos empathi; treulio amser yn gwrando ac yn egluro; lleihau pryderon a gofid a rheoli poen yn dda; ennyn ymddiriedaeth y rhai rydych yn gofalu amdanynt; a sicrhau nad ydynt yn teimlo'n unig ac yn ddiymadferth, yn amhrisiadwy. Dylai nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol arwain drwy esiampl a dangos yr elfennau hyn wrth ddarparu gofal.
- xi Mae addysg yn fuddsoddiad allweddol o ran arfer diogel. Bydd ddysgdd yn galluogi'r ymarferydd newydd i ddatblygu'r medrau i ddod yn gofrestrdig gyda hyder yn ogystal â bod yn gymwys; bod yn addas at y diben yn ogystal â chael dyfarniad.
- xii Nid oes a wnelo addysg broffesiynol â gwybodaeth a sgiliau i gyflawni tasg yn unig, waeth pa mor gymhleth ydyw. Mae hefyd yn ymwneud â chymdeithasu a mewnloli'r gwerthoedd a'r codau o ran ymddygiad ac arfer proffesiynol, ar ddyletswydd ac oddi ar ddyletswydd. Mae addysg broffesiynol yn galluogi'r ymarferydd llewg i 'ddod yn' nyrs, bydwraig neu nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol, sydd â hunaniaeth arbennig ac sy'n ymfalchio mewn cynnal gwerthoedd, moeseg a chodau proffesiwn sy'n gofalu fel nad swydd yn unig yw 'gwaith', ond hunaniaeth a chyfrifoldeb proffesiynol, a ategir gan ethos gofalu.
- xiii Nid yw gwybodaeth yn beth digyfnewid. Un o gyfrifoldebau allweddol gweithwyr proffesiynol cofrestredig yw sicrhau bod ei wybodaeth a'i sgiliau ei hun yn cyfateb i'r rôl a gyflawnir ganddo. Dylai hefyd gyfrannu at y broses o ddatblygu gwybodaeth drwy ddefnyddio arfer sy'n seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth a/neu gyfrannu ato.
- xiv Nid yw technoleg yn beth digyfnewid ychwaith. Yn wir, ymddengys fod datblygiadau technolegol newydd ym maes gofal iechyd a chyfathrebu yn digwydd yn gynt nag erioed o'r blaen o bosibl. Dylid defnyddio technoleg pan fo'n gwella canlyniadau cleifion/cleientiaid ac yn gwneud y broses o ddarparu gwasanaethau yn fwy effeithiol ac effeithlon. Fodd bynnag, ni ddylai atal cyswllt unigol, cyfranogi personol a'r 'elfen ddynol'.

6. Bydd pob nyrs, bydwraig a nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol yng Nghymru yn gyfrifol am sicrhau bod y gofal a roddant i gleifion/cleientiaid bob amser yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn.

Ailystyried y Nod Strategol a'r Amcanion

7. Mae'r ffaith bod y nod strategol a'r pum amcan ategol yn parhau i fod yn berthnasol yn dangos cryfder 'Gwireddu'r Potensial' (CCC, 1999) a'i gweledigaeth o ran gofal iechyd a rôl nyrsys, bydwagedd ac (ar y pryd) ymwelwyr iechyd. Gan fod y datganiad hwn am 'gredoau a champau gweithredu' yn deillio o ymgynghoriad eang, dylai unigolion a sefydliadau fel ei gilydd gytuno ar yr heriau, y blaenoriaethau a'r canlyniadau a nodir. Dylai nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol allu defnyddio enghreifftiau o gyflawniadau, canolbwyntio ar yr egwyddorion craidd a 'gweld eu hunain' a'r cyfraniad y gallant ei wneud at sicrhau gofal iechyd o safon.

Nod Strategol Diwygiedig:

Cydnabod holl botensial nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol er mwyn diwallu anghenion iechyd pobl yng Nghymru sy'n newid mewn partneriaeth ag eraill.

Amcanion Wedi'u Hailddatgan:

- **Gwella'r amgylchedd gofal**
- **Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i bawb**
- **Annog arfer annibynnol a myfyriol**
- **Datblygu llwybrau gyrfa presennol a newydd**
- **Dangos gwerth nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol**

8. Nododd gweithdai i randdeiliaid ledled Cymru saith blaenoriaeth allweddol ar gyfer nyrsio, bydwreigiaeth a nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol: arweinyddiaeth; addysg a hyfforddiant; ailgynllunio rolau; cynllunio'r gweithlu; technoleg gwybodaeth; cynnwys y cyhoedd a chleifion; llwybrau gyrfa. Adlewyrchir y blaenoriaethau hyn yn y camau gweithredu a nodir i gyflawni pob nod. Mae'r egwyddorion craidd ar gyfer gofal yn sail i bob nod a chanlyniad.

9. Caiff y canlyniadau eu gwerthuso drwy ddefnyddio tystiolaeth a ddarperir i ddangos bod Safonau Gofal Iechyd (LICC, 2005) yn cael eu cyrraedd. Cyfeirir at Safonau Gofal Iechyd penodol mewn cromfachau ar ddiwedd pob canlyniad ond canllaw yn unig yw hwn. Gall rhai canlyniadau rychwantu mwy nag un Safon Gofal Iechyd. Mae'n bosibl hefyd y bydd y rhai sy'n casglu tystiolaeth yn teimlo bod canlyniad penodol yn ymwneud yn agosach â safon heblaw'r un a awgrymwyd.

10. Tra bod pob maes a thema llywodraethu clinigol yn y Safonau Gofal Iechyd yn bwysig i sicrhau gwasanaethau o safon, mae cyfraniad nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol, yn unigol ac mewn timau, i'w weld amlycaf yn y safonau sy'n ymwneud â meysydd 'profiad y claf', 'canlyniadau clinigol' a 'llywodraethu gofal iechyd'.

Nodau a chanlyniadau ar gyfer gwireddu potensial nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn 2007 a thu hwnt

11. Nod 1 - Gwella'r amgylchedd gofal:

Sicrhau bod nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol, ar y cyd ag eraill, yn rheoli'r broses o ddarparu gofal ac adnoddau er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion gofal iechyd penodol unigolyn, yn yr amgylchedd gofal mwyaf priodol i'r unigolyn hwnnw.

Canlyniadau:

- i Bydd nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill er mwyn darparu gofal mewn amgylchedd sy'n diwallu ac yn bodloni anghenion a dymuniadau gofal iechyd y claf/cleient unigol yn y ffordd orau **(safon 2)**.
- ii Bydd arweinwyr nyrsys yn gweithio i sicrhau bod penderfyniadau a wneir ar lefel Bwrdd ynghylch buddsoddi ac adnoddau ar gyfer darparu gofal yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy am anghenion, profiadau a chanlyniadau gofal iechyd cleifion/cleientiaid **(safon 1)**.
- iii Bydd cleifion/cleientiaid yn chwarae rhan yn y broses o gynllunio a gwerthuso'r gofal a roddir gan nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol **(safon 1)**.
- iv Bydd gofal a ddarperir gan nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn sicrhau urddas ac yn parchu preifatrwydd cleifion/cleientiaid ar bob adeg **(safon 4 ac 8)**.
- v Bydd nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn gyfrifol am ddarparu a gwerthuso gofal a byddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau darparu gofal craidd. Byddant yn rhoi dystiolaeth a rhesymeg dros eu cyfraniad a'r effaith y mae wedi'i chael **(safon 11)**.
- vi Bydd nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn arwain timau, a all fod yn rhai amlddisgyblaethol a byddant yn gyfrifol am reoli'r cymysgedd sgiliau i gael y budd mwyaf o adnoddau **(safon 11 a 24)**.
- vii Bydd y gwaith o ddirprwyo cyfrifoldebau i staff cymorth a gweithwyr gofal iechyd eraill yn cael ei reoli gan nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion y claf/cleient unigol orau **(safon 11)**.

12. Nod 2 - Darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i bawb:

Sicrhau bod y gofal a ddarperir gan nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol: o'r radd flaenaf ymhob lleoliad gofal a chyda

phob grŵp o gleifion/cleientiaid; yn seiliedig ar angen unigol i hybu iechyd, atal salwch, gwella neu ddarparu gofal lliniarol; yn cynnwys y claf/cleient yn llawn wrth benderfynu ar yr anghenion posibl hyn a sut y gellid eu diwallu; yn defnyddio profiadau unigol cleifion/cleientiaid fel un mesur o safon.

Canlyniadau:

- i Bydd nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddarparu gofal unigol yn seiliedig ar anghenion y claf/cleient. Byddant yn arwain y gwaith o sicrhau yr ymdrinnir ag agweddau sylfaenol ar anghenion gofal personol, er enghraifft hylendid, maeth, hydradu ac ysgarthu gydag arbenigedd **(safonau 2 ac 11)**.
- ii Bydd penderfyniadau a gweithredoedd nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn seiliedig ar anghenion unigol cleifion/cleientiaid, neu mewn rhai achosion, grwpiau o gleifion/cleientiaid. Caiff tystiolaeth o sut y'u cynhwyswyd yn y broses o wneud y penderfyniadau hyn ei chofnodi **(safonau 11a ac 11b)**.
- iii Bydd nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn cymryd rhan yn y broses o hunanarchwilio eu harfer ynghyd ag archwiliadau o'u harfer gan gyfoedion **(safon 11d)**.
- iv Caiff gwerthusiadau o gleifion/cleientiaid eu defnyddio gan nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol i lywio'r broses o fonitro ansawdd a gwelliannau a gynlluniwyd i wasanaethau **(safon 1)**.
- v Bydd nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn galluogi cleifion/cleientiaid i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal ac yn gweithio gyda hwy i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a hunanreoli iechyd, salwch a/neu anabledd **(safon 7 a 31d)**.
- vi Bydd nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn gweithio mewn partneriaethau â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a/neu asiantaethau eraill i hyrwyddo budd a lles eu cleifion/cleientiaid.**(safon 2)**
- vii. Bydd strategaethau ar waith ar lefel glinigol i rymuso nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol i arwain mentrau gofal i hyrwyddo budd a lles cleifion/cleientiaid **(safon 11 a 29a)**

13. Nod 3 - Annog arfer annibynnol a myfyriol

Sicrhau bod nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu a diweddarau eu harfer er mwyn iddo fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn fyfyrionol a'u galluogi i arfer gyda chymhwysedd a hyder yn yr amgylchedd y maent yn darparu gofal ynddo, yn unol â'r safonau a bennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Canlyniadau:

- i Bydd nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn rhoi tystiolaeth o sut mae eu harfer yn seiliedig ar ymchwil neu dystiolaeth **(safon 12)**.
- ii Bydd nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn atebol am sicrhau bod eu gwybodaeth a'u sgiliau unigol yn bodloni gofynion eu rôl **(safon 22)**.
- iii Mae gan nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol gyfrifoldeb i gyfrannu at y gwaith o gynhyrchu gwybodaeth sy'n sail i'w harfer. Bydd pob un yn gallu rhoi tystiolaeth o sut mae'n cyfrannu at yr agenda ymchwil a/neu at ddatblygu arfer clinigol **(safon 13)**.
- iv Pan fydd angen sgiliau a gwybodaeth newydd ar gyfer rôl newydd neu ffordd newydd o weithio, bydd nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn gweithio gyda'u rheolwr/rheolwyr i sicrhau eu bod yn gymwys cyn mynd yn gyfrifol am y rôl newydd **(safon 22)**.
- v Bydd pob nyrs, bydwraig a nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol yn cael cyfnod sefydlu a gynlluniwyd pan fyddant yn dechrau swydd neu rôl newydd **(safon 22)**.
- vi Darperir cyfnod o diwtoriaeth gyda thiwtor penodol i'r rhai sy'n cychwyn eu cyfnod cyntaf o gyflogaeth fel nyrs, bydwraig neu nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol gofrestredig **(safon 22)**.

14. Nod 4 - Datblygu llwybrau gyrfa presennol a newydd:

Datblygu rolau a llwybrau gyrfa hyblyg presennol a newydd ar gyfer nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i groesi ffiniau a chymryd rhan mewn arfer clinigol, addysg, ymchwil, rheoli a/neu ddatblygu polisi i wella'r broses o ddarparu gofal a boddhad swydd.

Canlyniadau:

- i Bydd cyfleoedd i nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol gadw cyfrifoldeb am ddarparu gofal 'ymarferol' i gleifion/cleientiaid. Gallai hyn ddigwydd drwy ehangu swyddi ar lefel ymgynghorol ond bydd yn amlwg iawn drwy ddisgrifiadau swydd diwygiedig ar gyfer swyddi newydd a sefydledig sy'n diffinio eu cyfraniad uniongyrchol a'u cyfrifoldeb am weithgareddau darparu gofal **(safon 11)**.
- ii Bydd partneriaethau arloesol rhwng meysydd addysg, gwasanaeth ac ymchwil yn seiliedig ar anghenion cleifion/cleientiaid a bydd tystiolaeth yn dangos cyfraniad mentrau o'r fath at wella canlyniadau gofal iechyd **(safon 13)**.

- iii Bydd partneriaethau arloesol ar draws gwasanaethau aciwt a chymunedol yn seiliedig ar anghenion cleifion/cleientiaid a bydd tystiolaeth yn dangos cyfraniad y partneriaethau hyn at wella canlyniadau gofal iechyd **(safon 12)**.
- iv Caiff rolau newydd eu creu, yn seiliedig ar lwybrau gofal neu 'deithiau' cleifion/cleientiaid. Bydd sgiliau trosglwyddadwy yn hanfodol er mwyn i staff gael eu penodi i'r rolau hyn a gall deiliaid swyddi weithio ar draws ffiniau proffesiynol ac ar draws pob lleoliad gofal. Bydd tystiolaeth yn dangos sut mae'r rolau newydd hyn yn gwella canlyniadau gofal iechyd i gleifion/cleientiaid a boddhad swydd staff **(safon 20)**.
- v Defnyddir swyddi sy'n hyrwyddo datblygiadau ym maes arfer fel ffordd allweddol o sicrhau arloesedd ym maes arfer a darparu gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth **(safon 24)**.
- vi Caiff rhaglenni a mentrau sy'n cynyddu gwaith ymchwil ym meysydd nyrsio, bydwreigiaeth a nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol eu hymestyn gyda chynnydd amlwg yn yr ymchwil a gynhyrchir **(safon 13)**.
- vii Daw cyfleoedd secondio a chysgodi yn gyffredin gyda nyrsys, bydwragedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn symud yn esmwyth rhwng pob sector a maes arfer, boed yn arfer clinigol, ymchwil, addysg, rheoli a/neu ddatblygu polisi. Bydd cyfleoedd secondio ar gael i swyddi mewn meysydd proffesiynol eraill lle y gellir defnyddio sgiliau trosglwyddadwy. Dylai polisiau adnoddau dynol a dulliau secondio hwyluso cyfleoedd i gyfnewid a datblygu sgiliau. Bydd cyfleoedd secondio a chysgodi yn canolbwyntio ar wella ansawdd y gofal a ddarperir **(safon 24)**.
- viii Bydd nifer y mentrau sy'n datblygu'r gweithlu addysgu ym maes arfer clinigol yn cynyddu a bydd gwerthusiadau myfyrwyr a gwerthusiadau o arfer clinigol yn dangos gwerth y mentrau hyn **(safon 24)**.

15. Nod 5 - Dangos gwerth nyrsys, bydwragedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol:

Dangos gwerth penodol nyrsys, bydwragedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol a'r cyfraniad unigryw maent yn ei wneud at ddarparu gofal o fewn timau amlddisgyblaethol ymhob amgylchedd gofal.

Canlyniadau:

- i Bydd dulliau gwerthuso ac archwilio yn nodi'r gofal a ddarperir gan nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol ac yn cyflwyno adroddiadau ar ei ansawdd a'i gyfraniad at brofiad cleifion/cleientiaid a chanlyniadau gofal iechyd (**safon 11**).
- ii Bydd nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn rhoi tystiolaeth o'r modd y mae llywodraethu clinigol yn ategu eu harfer ar bob adeg (**safon 28**).
- iii Bydd nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn gallu rhoi tystiolaeth o'r modd y maent yn cyfrannu at gyrraedd safonau ansawdd (**safon 11**).
- iv Bydd nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn gallu rhoi tystiolaeth o'r modd y maent wedi cadw eu sgiliau gofalu 'ymarferol' a sut maent yn gyfrifol am weithgareddau darparu gofal (**safon 11**).

CASGLIAD: GWIREDDU POTENSIAL NYRSYS, BYDWAGEDD A NYRSYS IECHYD Y CYHOEDD CYMUNEDOL ARBENIGOL YN 2008 A THU HWNT

16. Nodir dyheadau allweddol polisi gofal iechyd Cymru yn glir yn 'Cynllun Oes' (CCC, 2005b). Mae a wnelo'r broses o ddarparu gwasanaethau â chanolbwyntio ar wella ansawdd a'i gwneud yn haws cael gafael arnynt gyda defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau a wneir am eu gofal ac yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio a monitro ansawdd gwasanaethau. Bydd canolbwyntio'n fwy ar atal salwch, hybu iechyd a rheoli cyflyrau hirdymor yn well yn cyfrannu at wella iechyd pobl Cymru. Mae dogfennau polisi a strategaethau dilynol ar gyfer gofal iechyd oll yn seiliedig ar ddyheadau 'Cynllun Oes' i sicrhau bod pob maes darparu gwasanaethau a phob proffesiwn yn gweithredu mewn ffordd gydlynol, er mwyn cyflawni amcanion polisi cyffredinol.

17. Pennwyd safonau gofal iechyd ar gyfer mesur ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y broses o ddarparu gofal (CCC, 2005a). Defnyddir y safonau hyn fel mesur o effaith y camau a gymerwyd gan nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol i gyflawni'r canlyniadau a nodir yn y datganiad hwn. Yn ddiau, bydd dogfennau polisi'r dyfodol ar gyfer Cymru yn canolbwyntio ar barhau i wella iechyd pobl yng Nghymru ac efallai y byddant yn defnyddio nodau byd-eang a dangosyddion gofal iechyd byd-eang.

18. Bydd nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn cyfrannu, nawr ac yn y dyfodol, fel yr amlinellir yn y datganiad hwn am *Gredoau a Champau* gweithredu. Yn unigol a/neu gyda'i gilydd drwy'r Safonau Gofal Iechyd (LICC, 2005a) byddant yn rhoi tystiolaeth o'r modd y maent wedi gweithredu'r meysydd gweithredu allweddol sy'n gysylltiedig â phum nod diwygiedig eu strategaeth, 'Gwireddu'r Potensial' (CCC, 1999) ac a nodir yn y datganiad hwn neu'r modd y maent yn gweithredu'r meysydd allweddol hynny.

19. Mae potensial nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechedd y cyhoedd cymunedol arbenigol i gyfrannu at wella gofal iechedd yng Nghymru yn enfawr ac mae eich cyfraniad fel nyrs, bydwraig a nyrs iechedd y cyhoedd gymunedol arbenigol yn hanfodol i sicrhau llwyddiant.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y datganiad hwn am *Gredau a Charnau* gweithredu cysylltwch â:

Denise Richards
Swyddog Nyrsio,
Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd – Yr Is-adran Nyrsio
4^{ydd} Llawr
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

e-bost: denise.richards@wales.gsi.gov.uk

Y TU HWNT I 2008 - HERIAU A FFACTORAU SBARDUNO I NYRSYS, BYDWRAGEDD A NYRSYS IECHYD Y CYHOEDD CYMUNEDOL ARBENIGOL

1. Mae Cynllun Oes (LICC, 2005b) yn disgrifio gweledigaeth o ran darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru erbyn 2015 ac mae'n cyflwyno'r agenda polisi i gyflawni'r weledigaeth hon. Caiff tri nod y cynllun: iechyd gydol oes; gwasanaethau cyflym, diogel ac effeithiol; gofal o'r radd flaenaf; eu hategu gan 'staff medrus sy'n darparu gwasanaethau sy'n gweithio bob amser, ond sy'n bersonol i'r unigolyn o hyd'. Mae nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn hanfodol i'r broses o ddarparu'r gwasanaethau hyn a chyflawni'r nodau hyn. Bydd eu gallu a'u parodrwydd i ateb yr her o ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion/cleientiaid unigol a/neu boblogaethau o gleifion/cleientiaid yn bwysig iawn y tu hwnt i 2007, wrth i anghenion gofal iechyd uniongyrchol a thymor hwy a heriol pobl Cymru sy'n newid orfod cael eu diwallu gydag adnoddau cyfyngedig.

2. Mae'r diwygiadau o ran gofal iechyd a nodir yn 'Cynllun Oes' yn rhoi pwyslais arbennig ar wella iechyd; gweithio mewn partneriaeth; ymgysylltu â'r cyhoedd; gofal ar sail tystiolaeth; sgiliau amrywiol a'r defnydd priodol o arbenigedd; darparu gwasanaethau yn y gymuned y mae pobl yn byw ac yn gweithio ynddi. Er mwyn cyflawni'r diwygiadau, nodir deg "galluogwr"; rheoli perfformiad; ymchwil a gwerthuso; meincnodi; ailgyflunio'r gwasanaeth; addysg, hyfforddiant ac ailgynllunio'r gweithlu; strategaeth ariannol; arweiniad proffesiynol; rhwydweithiau clinigol; cynllunio, comisiynu a phartneriaethau strategol; gwybodaeth.

3. Felly mae angen i faes nyrsio, bydwreigiaeth a nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol ymateb i nifer o heriau a ffactorau sbarduno allweddol er mwyn cyfrannu at gyflawni'r diwygiadau hyn:

Anghenion gofal iechyd sy'n newid:

Mae gofal iechyd yn newid wrth iddo ganolbwyntio'n bennaf ar faterion iechyd y cyhoedd, anghydraddoldebau iechyd a chynhwysiant cymdeithasol. Mae hybu iechyd a ffyrdd iach o fyw i leihau gordewdra a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag ysmegu, i enwi dwy enghraifft yn unig, wedi dod i amlygrwydd tra bod atal salwch, rheoli cyflyrau cronig hirdymor megis diabetes, cynorthwyo pobl i ofalu amdanynt eu hunain a darparu gwasanaethau mewn amgylchedd cymunedol oll yn parhau i fod yn ffactorau sbarduno pwysig i sicrhau lefelau uchel o iechyd a lles yn y boblogaeth gyfan.

'Mae 'Cynllun Oes' yn canolbwyntio ar wasanaethau iechyd cymunedol cryfach sydd, yn fwyfwy, yn symud i wraidd y cymunedau y mae pobl yn byw ac yn gweithio ynddynt er mwyn gwella cyfleoedd i dderbyn y gwasanaethau hynny, cyfleoedd i gyfranogi ac effeithiolrwydd, yn ogystal ag effeithlonrwydd. Mae helpu poblogaeth sy'n heneiddio i barhau'n iach ac yn annibynnol, yn ogystal â'r manteision sy'n deillio o alluogi pobl â phroblemau corfforol a/neu iechyd meddwl cronig a/neu hirdymor i hunanreoli eu cyflwr gartref, gyda

chymorth, yn tanlinellu'r ffaith bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar wasanaethau cymunedol a rôl yr unigolyn wrth ysgwyddo rhywfaint o gyfrifoldeb am ei iechyd ei hun. Yn yr un modd, efallai mai mewn amgylchedd cymunedol yn y cartref y gellir diwallu anghenion y bobl hynny y mae angen gofal lliniarol a/neu derfynol arnynt orau.

Mae anghenion gofal iechyd sy'n newid eisoes wedi arwain ar rolau amrywiol i nyrsys ac mae 'nyrsio' yn golygu gwahanol bethau mewn gwahanol gyd-destunau a chyda gwahanol grwpiau o gleifion/cleientiaid. Mae llawer o gleifion/cleientiaid yn meddu ar lawer o wybodaeth ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddisgwyliadau uwch o'r gwasanaeth iechyd a'r gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n effeithio ar eu profiad o ofal. Bydd angen i nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol allu ymateb i gyd-destun y broses o ddarparu gofal sy'n newid a meddu ar yr hyblygrwydd, y gallu i addasu, y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i weithio mewn amgylcheddau gwahanol â phwyslais gwahanol. Bydd angen i'r proffesiynau sicrhau cydbwysedd rhwng sgiliau generig ac arbenigol lle y bo'r angen wrth ddarparu gofal cyfannol, di-dor.

Rolau newydd:

Gofynnir i nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol gyflawni amrywiaeth cynyddol o rolau newydd mewn llawer o leoliadau gwahanol a chyda phartneriaethau newydd i ddarparu gofal. Gall ffiniau proffesiynol fod yn aneglur. Bydd angen iddynt ymgorffori cryfderau a gwerthoedd eu rolau proffesiynol traddodiadol yn llwyddiannus yn y rolau newydd hyn a ffyrdd newydd o weithio. Fodd bynnag, ni ddylent golli'r sgiliau gofalu a'r ethos gofalu sydd wrth wraidd y grefft o fod yn nyrs, yn fydwraig neu'n nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol gan fod y rhain yn eu galluogi i wneud cyfraniad mor werthfawr drwy'r rolau newydd a'r ffyrdd newydd o weithio.

Bydd hyrwyddo delwedd newidiol y nyrs, y fydwraig a'r nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol o ran darparu gofal iechyd modern yn her; rhywun sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth i allu gweithio'n hyblyg mewn llawer o rolau newydd ac ar draws ffiniau proffesiynol, ond sy'n dal i fod yn gyfrifol am ddarparu safon ragorol o ofal 'ymarferol'.

Moderneiddio gyrfaedd:

Er mwyn i'r broses o ddiwygio gofal iechyd lwyddo, bydd angen i nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol fod yn hyblyg ac yn barod i addasu er mwyn cyflawni'r rolau a'r cyfrifoldebau newydd amrywiol hyn a/neu weithio'n wahanol mewn amgylcheddau newydd a gwahanol. Felly, bydd angen i yrfaoedd adlewyrchu'r newidiadau hyn. Bydd y broses o ddiwygio'r gweithlu sy'n seiliedig ar gymhwysedd ac sydd wedi llywio'r gwaith o ailgynllunio a moderneiddio gwasanaethau yn dadelfennu strwythurau gyrfa traddodiadol a ffiniau proffesiynol ac yn creu cyfleoedd sy'n cwmparu llwybrau traddodiadol yn ogystal â llwybrau gyrfa newydd, arloesol a hyblyg. Bydd y broses o fabwysiadu safbwynt ehangach wrth ddiffinio a chynllunio llwybrau gyrfa yn her gyffrous i ymarferwyr unigol a'r proffesiynau. Bydd yn hanfodol

bod ymarferwyr yn meddu ar sgiliau trosglwyddadwy er mwyn dilyn llwybrau gyrfa hyblyg ac arloesol. Bydd rhaglenni addysg ôl-gofrestru modwlar sy'n seiliedig ar arfer yn galluogi'r rhai sydd am ddilyn y llwybrau gyrfa hyblyg hyn i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau.

Gweithlu symudol:

Nid yw swyddi am oes mwyach. Disgwylir i gyflogeion symud ac mae'r gweithlu yn fwy cyfnewidiol gan fod staff gofal iechyd wrthi'n chwilio am gyfleoedd cyflogaeth newydd y tu allan i Gymru erbyn hyn. Gall ysbytai mawr fod yn arbennig o agored i staff yn symud ac mae gan ardaloedd gwledig eu problemau gweithlu eu hunain. Gall staff yn symud ac yn cael eu cyfnewid arwain at ansefydlogrwydd o fewn y gweithlu gofal iechyd ond mae hefyd yn gyfrifol am ysgogi a chyfnewid syniadau ac arferion gwaith. Gallai'r broses o ehangu'r Gymuned Ewropeaidd weld nyrsys a bydwagedd o wledydd Ewropeaidd yn chwilio am waith yn y Deyrnas Unedig ynghyd â phersonél a hyfforddwyd yn y DU yn symud i Ewrop a thu hwnt.

Cynnwys cleifion/cleientiaid a'r cyhoedd:

Y tu hwnt i 2007 rhoddir y pwyslais ar ymreolaeth cleifion/cleientiaid a'r cyhoedd, mewn dau faes yn arbennig. Yn gyntaf, eu grymuso i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u lles eu hunain ac yn ail, i chwarae rhan yn y broses o gynllunio a gwerthuso gwasanaethau gofal iechyd. Felly, bydd nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn gweithio gydag unigolion neu grwpiau o gleifion/cleientiaid, eu teuluoedd a/neu ofalwyr mewn cydberthnasau newydd sy'n adlewyrchu eu hawliau a gwerth eu cyfranogiad yn well, yn enwedig wrth bennu safonau yn ogystal â monitro a gwerthuso ac adolygu gwasanaethau. I rai gweithwyr proffesiynol ac yn wir i rai cleifion/cleientiaid, gallai'r rôl newydd hon fod yn heriol gan fod diwylliant hirsefydledig yn bodoli o ddibynnu ar feddygon/nyrsys/bydwagedd gan 'mai hwy sy'n gwybod orau'. Mater i'r gweithwyr proffesiynol unigol fydd tawelu meddyliau ac annog y cyhoedd i gyfranogi. Bydd hefyd angen i nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol deimlo'n hyderus ynghylch eu gwybodaeth a'u sgiliau proffesiynol eu hunain er mwyn osgoi cuddio y tu ôl i wynebau proffesiynol ond yn hytrach, ddod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu â'u cleifion/cleientiaid a'u cynnwys mewn cydberthnasau mwy cytbwys.

Addysg – y sylfaen hanfodol:

Bydd angen i addysg cyn cofrestru ystyried anghenion gofal iechyd sy'n newid a'r cam tuag at ddarparu nifer gynyddol o wasanaethau yn y gymuned. Mae'r pwyslais ar gynnwys cleifion a'r cyhoedd yn herio'r gydberthynas draddodiadol rhwng nyrsys a chleifion a bydd rolau a gyrfaedd newydd, yn seiliedig ar lwybrau gofal a/neu 'deithiau' cleifion/cleientiaid, yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymarferydd cofrestredig weithio mewn ffordd fwy hyblyg ac ar draws ffiniau proffesiynol. Mae hyn yn arwain at oblygiadau a heriau o ran paratoi ymarferwyr newydd y mae'n rhaid iddynt fod yn addas at y diben ac ymarfer mewn byd cyflym sy'n newid sy'n defnyddio technolegau newydd i wella effeithlonrwydd. Bydd angen i'r broses o ailgynllunio'r cwricwlwm

ganolbwyntio ar y patrymau hyn sy'n newid o ran darparu gofal ac, wrth sicrhau bod y wybodaeth a'r sgiliau priodol yn cael eu meithrin, gan gynnwys sgiliau TG a thechnegol, mae'r angen i dynnu sylw at arferion clinigol perthnasol drwy fodelau rôl cadarnhaol sy'n dangos sgiliau sylfaenol gofalu a'r gallu i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, yn parhau i fod yn hollbwysig. Wedyn, gall ymarferwyr newydd ddod yn rhai cofrestredig gan feddu ar y sgiliau sy'n angenrheidiol i fod yn hyblyg ac i addasu, gan weithio gyda hyder a chymhwysedd mewn unrhyw leoliad, tra'n parhau i ddarparu'r math o ofal unigol a thosturiol y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl gan nyrs, bydwaig neu nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol

Rhydd y drafodaeth barhaus o ran proses ymbaratoi gyffredinol ac arbenigol her bellach a bydd angen gwneud penderfyniad hyddysg, yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sy'n manteisio i'r eithaf ar sgiliau a photensial ei weithlu cofrestredig a'i weithlu arall, i wella canlyniadau gofal iechyd. Ceir pwysau ychwanegol i weithio mewn ffordd fwy pwrpasol tuag at addysg ryngbroffesiynol, unwaith eto gan anelu at baratoi gweithwyr proffesiynol sy'n addas at y diben.

Bydd gwaith cysoni o fewn gwledydd y Gymuned Ewropeaidd yn effeithio ar addysg nyrsys yng Nghymru ac yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Nod proses Bologna a phrosiect Tuning yw cysoni cymwyseddau nyrsio felly efallai y bydd angen i raglenni paratoi'r DU wneud addasiadau yn unol â'r cytundebau hyn.

Bydd angen i addysg ôl-gofrestru hefyd ymateb a rhoi cyfleoedd i nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol ddatblygu cymwyseddau sy'n eu gwneud yn fwy hyblyg ac yn eu paratoi i gyflawni rolau newydd a/neu fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio. Rhaid ystyried addysg ôl-gofrestru yn rhan o gontinwwm addysg sy'n dechrau pan fydd rhywun yn ymuno â rhaglen baratoi cyn cofrestru ac sy'n parhau drwy ei ddewis lwybr gyrfa.

Mae angen ystyried cyflwyno Deoniaethau Rhanbarthol ar gyfer comisiynu addysg ôl-gofrestru ledled Cymru. Mae angen ystyried cyflwyno fframwaith ôl-gofrestru â changhennau unigol gyda chymunedau nyrsio. Gallai nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol ddewis o amrywiaeth o opsiynau addysg naill ai ar lefel gradd gyntaf neu ar lefel gradd mistr, gan gymryd un maes arbenigol yn brif bwnc, gan sicrhau bod ganddynt y cymwyseddau angenrheidiol i gyflawni eu rôl yn effeithiol.

Yn ogystal, efallai y bydd angen cynnig cyfleoedd ôl-gofrestru newydd i wella gwybodaeth a sgiliau fel eu bod yn cyd-fynd â safonau diwygiedig, a/neu anghenion gofal iechyd. Er enghraifft, mae cofnodion cleifion electronig yn dod yn fwyfwy amlwg ac efallai y bydd teleiechyd/telefeddygaeth o fudd mawr i'r rhai sy'n byw mewn amgylcheddau gwledig. Bydd angen hyfforddi nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol i ddefnyddio technoleg gwybodaeth er mwyn cymryd rhan yn y broses o wella mynediad i ofal iechyd ar gyfer y boblogaeth wledig.

Mae'r iaith Gymraeg yn agwedd bwysig ar ddiwylliant Cymru ac mae cyfran gynyddol o'r boblogaeth yn ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg). Mae angen i

addysg broffesiynol adlewyrchu sail ddiwylliannol Cymru drwy ehangu mentrau ar gyfer addysg cyn cofrestru ac ôl-gofrestru drwy gyfrwng y Gymraeg.

Fodd bynnag, waeth beth fo'r datblygiadau, newidiadau a mentrau, yr hyn sy'n ategu pob math o addysg yw'r angen i gynnal hanfod nyrsio, bydwreigiaeth a nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol a gwerthoedd craidd pob un. Mae mewnnoli gwerthoedd, safonau a chodau'r proffesiwn yr un mor bwysig o ran 'dod yn' nyrs, bydwraig neu nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol ag y mae dysgu 'sut' a 'beth'; codau a gwerthoedd sy'n ategu bywydau personol a phroffesiynol.

Ymchwil a datblygu ym maes arfer gorau:

Mae i ba raddau y mae tystiolaeth o ansawdd ar gael ac yn hygyrch at ddiben llywio arferion yn rhan hanfodol o'r broses o ddarparu gofal iechyd modern ac mae'n rhan hanfodol o broses llywodraethu clinigol dda. Mae angen i bob ymarferydd allu cael gafael ar dystiolaeth er mwyn iddo ddefnyddio canfyddiadau ymchwil a chyfrannu'n llawn at yr agenda llywodraethu clinigol. Yr her yw sicrhau bod y broses o werthuso'r dystiolaeth sydd ar gael cyn gwneud penderfyniadau ynghylch gofal a/neu roi tystiolaeth i gleifion/cleientiaid i'w galluogi i wneud dewis hyddysg yn rhan annatod o arferion pob ymarferydd. Dylai pob ymarferydd gymryd rhan mewn archwiliadau clinigol ac yn y gwaith o fesur safonau gofal.

Mae'r broses o atgyfnerthu cyfraniad nyrsys, bydwragedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol o ran penderfyniadau strategol sy'n ymwneud â blaenoriaethau a chyllid ar gyfer ymchwil a datblygu, fel y gall sylfaen dystiolaeth eu harferion penodol gael ei datblygu ac effeithio ar y broses o ddarparu gofal yn her barhaus. Yn yr un modd, er bod cynnydd wedi'i wneud o ran datblygu màs critigol o ymarferwyr sy'n ymwneud â gwaith ymchwil drwy fentrau megis Cymrodoriaethau Hyfforddiant Ymchwil, mae angen gwneud mwy i hwyluso ymchwil a datblygu ym meysydd nyrsio a bydwreigiaeth. Mae datblygu llwybrau gyrfa ym maes ymchwil glinigol yn hanfodol i glinigwyr gweithredol a bydd yn eu galluogi i gynyddu eu potensial i wneud ymchwil a datblygu tystiolaeth sy'n seiliedig ar ymchwil o arfer clinigol.

Arweinyddiaeth a dylanwad strategol:

Mae angen i nyrsio, bydwreigiaeth a nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol gynnwys arweinwyr deinamig ymhob maes arfer sydd â'r weledigaeth, y penderfyniad a'r brwdfrydedd i ddatblygu'r proffesiynau fel partneriaid cyfartal â phroffesiynau gofal iechyd eraill ac i ddylanwadu ar bolisiau, strategaethau a blaenoriaethau ar bob lefel, boed hynny ym meysydd addysg, ymchwil neu arfer clinigol. Mae lle i arweinyddiaeth 'dawel' sy'n rhoi sefydlogrwydd yn ystod cyfnodau o newid yn ogystal ag angen am arweinwyr deinamig, agored a fydd yn sicrhau bod newidiadau yn digwydd. Ceir enghreifftiau cadarnhaol eisoes o arweinwyr tîm a mentrau i ddatblygu sgiliau arwain ledled Cymru. Mae nifer y nyrsys a'r bydwragedd ymgynghorol yn cynyddu a gallant arwain y gwaith o gyflwyno mentrau sy'n seiliedig ar arfer sy'n dylanwadu ar y modd y darperir gofal. Fodd bynnag, yr

her yw cynyddu momentwm y gwaith hwn a chreu màs critigol o nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol sydd â dawn arbennig o ran meddwl, cynllunio a llunio polisiau mewn ffordd strategol fel bod gwerth a chyfraniad eu proffesiynau yn cael eu cydnabod a'u hadlewyrchu ymhob maes. Mae angen iddynt ddangos eu bod yn effeithiol ac yn ddylanwadol a'u bod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ffordd y mae nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn cyfrannu at y broses o ddarparu gofal iechyd a'r ffordd y mae eraill yn gweld ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad hwnnw.

Mae angen arweinwyr ymhob maes ac ar bob lefel i hyrwyddo gwerthoedd craidd ac arbenigedd nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol ynghyd â'r cyfraniad hanfodol y mae sgiliau gofalu 'ymarferol' yn ei wneud at ganlyniadau gofal iechyd a phrofiad cleifion/cleientiaid. Er bod rhai ffactorau cymdeithasol a gwleidyddol a rhai ffactorau yn ymwneud ag adnoddau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles y tu hwnt i reolaeth unigolion, mae'n rhaid i'w harweinwyr lobïo ar ran cleifion/cleientiaid a'r proffesiynau i gyflawni agenda sy'n diwallu anghenion.

Y BLAENORIAETHAU AR GYFER NYRSIO, BYDWREIGIAETH A NYRSIO IECHYD Y CYHOEDD CYMUNEDOL ARBENIGOL AR GYFER 2008 A THU HWNT:

Darparu gwasanaethau o ansawdd uchel

1. Y blaenoriaethau i'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru yw 'gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr', 'manteisio i'r eithaf ar adnoddau' a 'thargedu gwelliannau parhaus o ran perfformiad', gan ganolbwyntio ar hwyluso'r broses o gael gafael ar wasanaethau, atal salwch/hybu iechyd a gwneud gwelliannau mewn meysydd gwasanaeth allweddol (LICC, 2005b). Nodir deg maes hanfodol y mae angen eu diwygio a thargedir camau gweithredu i gyflawni'r nodau ymhob un ohonynt. Mae cyfraniad nyrsys, bydwreagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn arbennig o berthnasol mewn rhai meysydd allweddol: arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth drwy ymchwil a datblygu; meincnodi safonau gofal a datblygu llwybrau gofal; gweithio'n wahanol o ran ailgyflunio'r gwasanaeth; addysg a hyfforddiant ar gyfer rolau newydd a ffyrdd newydd o weithio; arweinyddiaeth i ddylanwadu ar y broses o bennu safonau a blaenoriaethau; gweithio mewn partneriaethau newydd ac ar draws ffiniau proffesiynol a thrwy ddefnyddio technoleg a gwybodaeth mewn ffyrdd sydd o fudd i gleifion/cleientiaid. Mae'r blaenoriaethau hyn o ran creu gwasanaethau o ansawdd uchel wedi pennu cyfeiriad y gorffennol a'r presennol o ran polisi ac arfer ym maes nyrsio, bydwreigiaeth a nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol ac maent yn parhau i lywio ffocws y dyfodol.

Moderneiddio gyrfaedd

2. Mae angen gweithlu modern ar Wasanaeth Iechyd Gwladol newydd a modern sydd mewn sefyllfa well i ddarparu gwasanaethau o ansawdd i'r rhai y mae eu hangen arnynt pan fo eu hangen arnynt ac yn y lle y mae eu hangen arnynt. Felly, mae angen i nyrsio, bydwreigiaeth a nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol ddarparu gweithwyr proffesiynol hyblyg a chymwys a all weithio'n hyderus ar draws lleoliadau gofal a ffiniau proffesiynol ac mewn rolau newydd a gwahanol. Mae dewisiadau a llwybrau gyrfa wedi'u diweddarau yn angenrheidiol ac mae arweinwyr cryf a deinamig yn hanfodol. Tynnir sylw at yr agwedd allweddol hon ar y broses foderneiddio gan y pedwar Prif Swyddog Nyrsio yn y DU ac fe'i llywir ganddynt (LICC 2006).

Arweinyddiaeth

3. Y prif flaenoriaethau ar gyfer gweithredu a nodwyd yn y gweithdai i randdeiliaid a gynhaliwyd ledled Cymru oedd nodi darpar arweinwyr a'u galluogi i ddatblygu fel y gallent gael mwy o ddylanwad a chodi proffil a chynyddu cyfraniad nyrsio, bydwreigiaeth a nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol ynghyd â'u gwneud yn fwy amlwg. Mae'n rhaid i arweinwyr gael eu cydnabod a chael eu cefnogi er mwyn bod yn arloesol a gwneud y newidiadau angenrheidiol. Erys arweinyddiaeth yn brif flaenoriaeth.

Gweithio mewn partneriaethau

4. Partneriaethau sy'n allweddol i gyflawni'r canlyniadau o ran diwygio gofal iechyd yng Nghymru yn llwyddiannus: partneriaethau rhwng llunwyr polisïau, proffesiynau, gweithwyr proffesiynol, cleifion a'r cyhoedd. Bydd nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol yn chwarae rhan hanfodol i hwyluso ac annog partneriaethau cadarnhaol â diben cyffredin; partneriaethau sy'n annog gwaith tîm i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o'r radd flaenaf i Gymru yn yr 21^{ain} Ganrif. Dylai'r arfer hwn o weithio fel tîm gael ei weithredu ar draws y gymuned iechyd gyfan, gan gynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol yn ogystal â'r GIG.

Gweithredu ar y strategaeth i wireddu potensial

5. O ran partneriaeth mae'r 'datganiad am gredoau a chymau gweithredu' sydd bellach yn diweddar 'Gwireddu'r Potensial' (CCC, 1999) yn ddogfen sy'n berthnasol i bawb. Mae'n seiliedig ar egwyddorion craidd ac ar flaenoriaethau a ffactorau sbarduno allweddol cyffredin ar lefel facro sydd yr un mor berthnasol i nyrsio, bydwreigiaeth a nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol ynghyd ag arferion gwahanol pob un. Felly, dylai fod cyfeiriad strategol cyffredin â ffocws cyffredin ar yr heriau a'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, er y gallai'r ffyrdd o gyflawni'r canlyniadau cyffredin hyn amrywio ar gyfer arferion gwahanol ynghyd â'u pennu ac ymdrin â hwy'n lleol. Mae cydweithio i gyflawni nodau a chanlyniadau'r strategaeth ddiwygiedig, fel y nodir yn y datganiad am 'gredoau a chymau gweithredu', yn hanfodol er mwyn cyflawni nodau ym mhob maes blaenoriaeth. Mae hefyd yn hanfodol cydweithio i amlygu'r egwyddorion craidd ar gyfer gofal ymhob agwedd ar y gofal a roddir gan nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol a fydd yn arwain drwy esiampl wrth sicrhau rhagoriaeth mewn gofal.

Dathlu cyflawniadau

Gan ddefnyddio polisi iechyd y cyfnod, mae 'Gwireddu'r Potensial' (CCC, 1999) yn cyflwyno agenda weledigaethol ar gyfer cyflawni canlyniadau a sbardunir ac a lywir gan nyrsys, bydwagedd ac (ar y pryd) ymwelwyr iechyd a fydd yn gwneud cyfraniad pwysig at gyflawni nodau sylfaenol y polisi sef diwallu anghenion gofal iechyd a gwella iechyd a lles pobl yng Nghymru. Bwriedir i'r strategaeth fod yn ddogfen weithredol, sy'n berthnasol i bob nyrs, bydwraig ac (erbyn hyn) nyrs iechyd y cyhoedd gymunedol arbenigol waeth beth fo'i faes arfer.

Ategir y nod strategol gan amcanion ategol mewn pum maes allweddol: gwella'r amgylchedd gofal; darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i bawb; annog arfer annibynnol a myfyriol; datblygu llwybrau gyrfa presennol a newydd; dangos gwerth nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol. Mae camau gweithredu i gyflawni'r nod strategol cyffredinol yn berthnasol i bob amcan.

Mae nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol bob amser wedi rhoi'r brif flaenoriaeth i iechyd a lles cleifion/cleientiaid. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod 'Gwireddu'r Potensial' wedi ysbrydoli camau gweithredu ledled Cymru er mwyn gweithio gyda'i gilydd ac ar y cyd â chleifion/cleientiaid, eu teuluoedd a/neu ofalwyr yn ogystal â'r cyhoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, ar fentrau newydd a chyda momentwm newydd i gyflawni canlyniadau arwyddocaol. Roedd y gofynion yn heriol iawn mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym, lle cyfyngir ar adnoddau a lle ceir ffactorau newydd sy'n sbarduno polisi ond aed i'r afael â hwy gydag egni, brwdfrydedd ac ymrwymiad i lwyddo.

Un o gyflawniadau allweddol 'Gwireddu'r Potensial' fu llunio saith papur briffio. Mae pob papur briffio yn atgyfnerthu nodau'r strategaeth ac yn pennu cyfeiriad clir o ran eu cyflawni ym meysydd addysg (CCC, 2000), nyrsio iechyd meddwl (CCC, 2001), nyrsio anableddau dysgu (LICC, 2002a), bydwreigiaeth (LICC, 2002b), nyrsio iechyd meddwl plant a phobl ifanc (LICC, 2002c), ymchwil a datblygu (LICC, 2004a) a nyrsio plant (LICC, 2004b). Ar y pryd rhoddodd y papurau briffio ymdeimlad o berchenogaeth ar y broses o weithredu'r strategaeth yn ogystal â meithrin, a hynny'n bwysig, ffocws a dealltwriaeth ar lefel Cymru Gyfan o'r ffordd y câi'r canlyniadau eu cyflawni ymhob maes. Mae hyn yn waith pwysig sydd wedi llywio'r datganiad newydd am 'gredoau a chamau gweithredu'.

Yn yr un modd, ymhob darparwr gofal iechyd yng Nghymru, mae 'Gwireddu'r Potensial' (CCC, 1999) wedi cael ei defnyddio i bersonoli ac ategu strategaethau lleol a gynlluniwyd i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn y cynllun gweithredu. Dylid parhau â'r dull gweithredu hwn wrth gyflawni'r canlyniadau a nodir yn y datganiad newydd (2008).

Ymhlith enghreifftiau eraill o gyflawniadau sy'n codi o 'Gwireddu'r Potensial' mae sefydlu clinigau 'allgymorth' cymunedol a arweinir gan nyrsys ar gyfer pobl ddigartref sydd wedi gwella'r amgylchedd gofal i'r grŵp hwnnw o gleientiaid. Mae targed o 10% o enedigaethau gartref yng Nghymru wedi cynyddu'r dewis i ferched o ran man geni

a thrwy hynny ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Anogwyd arfer annibynnol a myfyriol ar draws y proffesiynau ac mae bellach yn cael ei gynnwys mewn rhaglenni addysg a diweddarau cyn cofrestru ac ôl-gofrestru. Mae addysg cyn cofrestru i nyrsys a bydwagedd ar lefel graddedigion. Mae'r broses o gyflwyno rhaglenni arweinyddiaeth wedi cael ei hehangu ledled Cymru ac mae'n cynnwys pob gradd o nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol fel bod arweinyddiaeth wedi dod yn amlycach ac yn bwysicach ar lefel ward a chymuned yn ogystal ag ymhlith uwch reolwyr. Yn sgîl penderfyniad y Cynulliad i gymeradwyo swyddi ymgynghorol i nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol sefydlwyd llwybr gyrfa newydd sy'n cyfrannu at well gofal i gleifion/cleientiaid. Mae'r broses o sefydlu'r Academi i hyrwyddo ysgolheictod a rhagoriaeth ym meysydd addysg, arfer ac ymchwil yn hyrwyddo gwerth nyrsys, bydwagedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol a'u cyfraniad at ragoriaeth ym maes gofal iechyd.

Gellir gweld rhagor o enghreifftiau a dadansoddiad llawn o'r cyflawniadau sy'n deillio o'r targedau a bennwyd yn 1999 yn: www.wales.gov.uk/nursing

CYFEIRIADAU

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (1999) 'Gwireddu'r Potensial'. Fframwaith Strategol ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru yn yr 21^{ain} Ganrif. CCC, Caerdydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2000) 'Gwireddu'r Potensial' Fframwaith Strategol ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru yn yr 21^{ain} Ganrif. Papur Briffio 1 'Creu'r Potensial' Cynllun Addysg CCC, Caerdydd.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001) 'Gwireddu'r Potensial' Fframwaith Strategol ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru yn yr 21^{ain} Ganrif. Papur Briffio 2 'Dyheu, Gweithredu, Cyflawni' Fframwaith ar gyfer Gwireddu Potensial Nyrsio Iechyd Meddwl yng Nghymru. CCC, Caerdydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2003) 'Hanfodion Gofal' Canllawiau i Staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Gwella ansawdd agweddau sylfaenol ar iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion. CCC, Caerdydd.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002a) 'Gwireddu'r Potensial' Fframwaith Strategol ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru yn yr 21^{ain} Ganrif. Papur Briffio 3 'Cynhwysiant, Partneriaeth a Datblygiadau Newydd' Fframwaith ar gyfer Gwireddu Potensial Nyrsio Anabledd Dysgu yng Nghymru. LICC, Caerdydd

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002b) 'Gwireddu'r Potensial' Fframwaith Strategol ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru yn yr 21^{ain} Ganrif. Papur Briffio 4 'Y Dyfodol mewn Dwylo Diogel yng Nghymru' Fframwaith ar gyfer Gwireddu Potensial Bydwagedd yng Nghymru. LICC, Caerdydd

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002c) 'Gwireddu'r Potensial' Fframwaith Strategol ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru yn yr 21^{ain} Ganrif. Papur Briffio 5 'Egwyddorion ac Ymarfer' Fframwaith ar gyfer Gwireddu Potensial Nyrsio Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru. LICC, Caerdydd.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004a) 'Gwireddu'r Potensial' Fframwaith Strategol ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru yn yr 21^{ain} Ganrif. Papur Briffio 6 'Gwireddu'r Potensial drwy Ymchwil a Datblygu' Fframwaith ar gyfer Gwireddu'r Potensial drwy Ymchwil a Datblygu yng Nghymru. LICC, Caerdydd.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004b) 'Gwireddu'r Potensial' Fframwaith Strategol ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd yng Nghymru yn yr 21^{ain} Ganrif. Papur Briffio 7 LICC, Caerdydd

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005a) 'Safonau Gofal Iechyd Cymru'. LICC, Caerdydd

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005b) 'Cynllun Oes': Creu Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r Radd Flaenaf i Gymru yn yr 21^{ain} Ganrif. LICC, Caerdydd
Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) 'Moderneiddio Gyrfaoedd Nyrsio' Gosod y Cyfeiriad. LICC, Caerdydd.